# EXECUTIVE DECISION RECORD

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 23 HYDREF 2024

**Cabinet Members:**

Councillors: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Officers in Attendance:**

K.Jones, N.Pearce, A.Jarrett, N.Daniel, A.Thomas, H.Jones, C.Griffiths, D.Griffiths, M.Roberts, R.Crowhurst, C.Howard, H.Lervy, C.Millis, C.Morris, K.Warren, D.A.Lewis, A.Phillips, A.Stoker, M. Thomas, T.Davies a/ac N.Jones

**Wales Audit Office:**

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelodau a'r Swyddogion canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd T Bowen - Cofnod Rhif 11 – (B4287 Efail Fach i Bont-rhyd-y-fen, Efail Fach) – gan ei fod yn aelod ward.

Cofnod Rhif 21 - Diweddariad ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a Chartref Diogel i Blant Hillside – gan fod ganddo aelod o'r teulu sy'n gweithio yn Hillside
Cofnod Rhif 22 – Adroddiad y Rheolwr ar Gartref Diogel i Blant Hillside - gan fod ganddo aelod o'r teulu sy'n gweithio yng Hillside.
Cofnod Rhif 12. 24 – Darparu cefnogaeth i Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn ei rôl fel Corff Atebol ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd - gan ei fod yn Gadeirydd y Cydbwyllgor Craffu.

Y Cynghorydd S Pursey - Cofnod Rhif 24 – Darparu cefnogaeth i Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn ei rôl fel Corff Atebol ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd - gan ei fod yn rhan o'r trefniadau Craffu ar y Cyd.
Cofnod Rhif 12. 8 - Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Cynllun Cyflawni Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot (2024-2029) – gan y caiff ei enwi yn yr adroddiad fel un o'r ymgyngoreion.

Y Cynghorydd J Hurley - Cofnod Rhif 11 (Y B4287 Efail Fach i Bont-rhyd-y-fen, Efail Fach) – gan ei fod yn aelod ward.

Nicola Pearce - Cofnod Rhif 24 – Darparu cefnogaeth i Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn ei rôl fel Corff Atebol ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd – gan ei bod yn gyfarwyddwr cwmni *Celtic Freeport Company Ltd*. Teimlai fod y budd hwn yn rhagfarnus, felly gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Cofnod Rhif 12. - Adolygiad o ffioedd a thaliadau a dalwyd mewn etholiadau Llywodraeth Leol - Datganodd pob swyddog gysylltiad â hyn; cyflwynodd K Jones yr eitem.

## 4. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar y 2 Hydref, 2024, yn gofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 24/25**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2024/25.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Roedd un cwestiwn wedi'i gyflwyno i'r Cyngor.

Croesawyd Mr Dewitt a gofynnodd yntau’r cwestiynau canlynol i'r Cyngor:

1. Mewn rhai blynyddoedd diweddar, nid yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cyflwyno ceisiadau i'r gronfa teithio llesol o gwbl ac yn fwy diweddar pan mae wedi gwneud hyn, mae wedi bod yn aflwyddiannus. Byddwn yn gobeithio gweld rhai strategaethau newydd i wella hyn ond nid yw'n glir beth yw'r rhain. Yn ddiamau, CNPT yw'r awdurdod lleol sy'n perfformio waethaf yn yr ardal hon a hoffwn weld rhai nodau penodol a all ddechrau'r broses wella.

   2. Mae awdurdodau lleol eraill wedi ceisio adeiladu prosiectau unigryw arwyddocaol ac mae'r rhain yn cael cyllid. Mae Trefynwy yn adeiladu pont dros afon Gwy, ac adeiladodd Casnewydd lwybr beicio a cherdded enfawr dros reilffordd gan gysylltu pobl mewn ffyrdd na fu’n bosib o’r blaen. Mae gan Abertawe sawl darn o isadeiledd unigryw sy'n cysylltu pobl mewn ffyrdd heblaw am geir. Ble mae uchelgais CNPT i wneud yr un peth? Pam na allwn ychwanegu rhywfaint o isadeiledd gweladwy arwyddocaol sy'n darparu drws ffrynt i gerddwyr a beicio i'n cyrchfannau. Gall a dylai fod yn fwy na hyn fel y mae yn ein hawdurdodau lleol cyfagos.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd i Mr Dewitt am ei gwestiynau ac ymatebodd i'r Pwyllgor. Ers 2014, mae Castell-nedd Port Talbot wedi cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru am welliannau Teithio Llesol gwerth dros £13,000,000 ac wedi llwyddo i sicrhau dros £6,000,000. Mae ceisiadau am gyllid wedi cael eu cyflwyno bob blwyddyn ers 2014.

O ran cynigion aflwyddiannus, mae bob amser gormod o geisiadau'n cael eu cyflwyno i'r Gronfa Teithio Llesol gan fod dros 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru'n cyflwyno cynigion.

Mae Adran 5 yn y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yn manylu ar welliannau arfaethedig. Mae'r cynllun yn cynnwys 29 o gamau gweithredu a byddai'r cyllid yn arwain at gyflawni gwelliannau mewn nifer o ardaloedd, gan gynnwys Canol Tref Castell-nedd, Aberafan, Port Talbot, Cimla i Ganol Tref Castell-nedd, Camlas Castell-nedd i Bont Llansawel. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae 400 o lwybrau ar gyfer y dyfodol a bydd y gwelliannau arfaethedig hyn yn amodol ar gyllid. Bydd hyn yn gwella 35% o lwybrau'r dyfodol ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot yn y dyfodol.

Diolchwyd i Mr Dewitt am y cwestiynau, ac am ymuno ag Aelodau a Swyddogion yng nghyfarfod y Cabinet.

7. **ASESIAD DICHONOLDEB BRYSBENNU**

**Penderfyniad:**
Bod Canolfan Gymunedol y Groes yn cael ei diystyru fel ystyriaeth ar gyfer Brysbennu a/neu lety dros dro.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Mae'r Ganolfan yn anaddas ar gyfer darparu gwasanaeth Brysbennu

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013 – CYNLLUN CYFLAWNI TEITHIO LLESOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (2024-2029)**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol (2024 – 2029), fel y'i nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013 - DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD O RAN GWEITHREDU A DIWYGIO 'MAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL' (ATNM) Y CYNGOR**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

10. **GORCHYMYN TRAFFIG - (CILMAENGWYN, PONTARDAWE) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG) 2024**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod y gwrthwynebiadau i Orchymyn (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg) (Cilmaen-gwyn, Pontardawe) 2024 (fel y manylir yn Atodiad A ac Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn cael eu cadarnhau'n llawn a bod cynllun diwygiedig (fel y nodir yn Atodiad C ac Atodiad D i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn cael ei roi ar waith.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Mae'r cynllun yn angenrheidiol er mwyn atal parcio diwahaniaeth er diogelwch ar y ffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **GORCHYMYN TRAFFIG - (B4287 EFAIL FACH I BONTRHYDYFEN, EFAIL FACH) (DIRYMU CYFYNGIAD PWYSAU 7.5 TUNNELL) 2024**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod y gwrthwynebiadau i Orchymyn (Dirymu'r Cyfyngiad Pwysau 7.5 tunnell) (Y B4287, Efail-fach i Bont-rhyd-y-fen, Efail-fach) 2024 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn cael eu cadarnhau'n llawn.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Bydd y cyfyngiad yn parhau; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

12. **ADOLYGIAD O FFIOEDD A THALIADAU A DALWYD MEWN ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL**

Ailddatganodd Swyddogion eu Datganiad o Fudd a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniad:**

Bod y strwythur ffioedd diwygiedig, fel y'u cynhwysir yn Atodiad 1 a gysylltir â hyn, yn cael ei gymeradwyo ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Cytuno ar y strwythur ffioedd diwygiedig cyn penodi staff priodol.

## 13. CEISIADAU CRONFA GRANTIAU AMRYWIOL

**Penderfyniad:**
Bod y ceisiadau a nodir yn Atodiad 1, yn cael eu cymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Penderfynu ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 14. CYNLLUN PLAC GLAS COFFAOL ARFAETHEDIG

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod:

1. Yr Aelodau'n cytuno ar yr argymhelliad i fwrw ymlaen â'r Cynllun Placiau Glas Coffa ac yn neilltuo cyllid i'r fenter hon.

2. Yr Aelodau'n cytuno i'r broses gwneud penderfyniadau fel a nodir yn y dogfennau polisi a'r canllawiau.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i fwrw ymlaen â lansio Cynllun Placiau Glas i hysbysu a dathlu pobl, lleoedd a digwyddiadau nodedig yn ein hanes lleol a neilltuo cyllid i gyflawni'r prosiect.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

15. **GWASANAETH DIOGELU IECHYD - YSTYRIED CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH BAE ABERTAWE**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod:

1. Yr Aelodau'n nodi cynnwys 'Cytundeb Lefel Gwasanaeth Bae Abertawe' fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 2.

2. Awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i ymrwymo i'r cytundeb gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Mae angen y penderfyniad i sefydlu trefniadau gweithio ffurfiol i gyflawni yn erbyn egwyddorion craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu iechyd, a sefydlu gweithlu cynaliadwy a gwydn sydd â'r gallu i baratoi ac ymateb i faterion diogelu iechyd ar draws ôl troed rhanbarthol Bae Abertawe.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **GOFAL PLANT MEWN YSGOLION/ADEILADAU ADDYSG: MABWYSIADU TREFNIADAU RHENT NEWYDD**

**Penderfyniad:**
Bod aelodau'n cytuno mewn egwyddor i'r newidiadau i daliadau rhent i ddarparwyr gofal plant mewn ysgolion ac adeiladau addysg.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Sicrhau parhad datblygiad gofal plant yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn unol â pholisïau a chynlluniau Llywodraeth Cymru.
Caniatáu i swyddogion ymdrechu i gau'r bylchau digonolrwydd gofal plant a nodwyd gan ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant.
Cefnogi Cyrff Llywodraethu ysgolion i gefnogi'r cais am ddatblygu cyfleusterau gofal plant ar safleoedd ysgolion. Cefnogi'r Awdurdod Lleol hefyd i gyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan Ddeddf Gofal Plant 2006. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi'r agenda Tlodi Plant wrth alluogi rhieni i gael amser i achub ar gyfleoedd hyfforddi neu gyflogaeth, neu i gael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant yn y sector gofal plant.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

17. **TÎM GWELLA YSGOLION - CWRICWLWM I GYMRU**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

18. **RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION - CEFN SAESON, CANOLFAN CYMORTH DYSGU**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig a'r asesiadau risg, argymhellir, yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, fod yr ymgynghoriad ar gynnig i gau darpariaeth y ganolfan cefnogi dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd â nam ar eu golwg yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson, yn cael ei gymeradwyo.

**Rhesymau dros y penderfyniad arfaethedig:**

Mae angen y penderfyniad hwn i gydymffurfio â gofynion yr ymgynghoriad ffurfiol a osodir ar y Cyngor gan y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, bydd rhoi'r cynnig ar waith yn galluogi'r Cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni potensial pob plentyn. Bydd hefyd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol yn unol â'r angen am leoedd arbenigol yn y Fwrdeistref Sirol.

**Rhoi'r penderfyniad ar waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

19. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 20 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

20. **RHOI GWYBOD AM GANLYNIAD YR ASESIAD ACHOS BUSNES AMLINELLOL GAN LYWODRAETH CYMRU A LLYWODRAETH Y DU**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

21. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 yr Atodlen.

22. **DIWEDDARIAD AR GARTREFI DIOGEL I BLANT HILLSIDE (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 13)**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

23. **ADRODDIAD Y RHEOLWR AR GARTREF PLANT DIOGEL HILLSIDE (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 13)**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

24. **ADNEWYDDU FFLYD (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Bod Aelodau yn:

1. Nodi goblygiadau ariannol adnewyddu cerbydau ailgylchu'r Cyngor ar gyfer casgliadau ailgylchu;

2. Cadarnhau'r dewis i brynu Cerbydau Ymateb Cyflym trydan a chymeradwyo'r cyllid cysylltiedig, ac ystyried y cyllid hwnnw yn y rownd gyllidebol gyfredol

3. Cefnogi terfynu’r broses gaffael bresennol a'i hailddechrau gan ystyried y gwersi a ddysgwyd; a

4. Rhoi Awdurdod Dirprwyedig i'r Pennaeth Gofal Strydoedd mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros y Strydlun a'r Prif Swyddog Cyllid i ddyfarnu i'r cyflenwr Cerbydau Ymateb Cyflym trydan mwyaf llwyddiannus o dan y broses gaffael sy'n cael ei hailddechrau, yn amodol ar gyllid gan LlC.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**
Sicrhau bod gan y gwasanaeth casglu ailgylchu gerbydau addas i ddarparu gwasanaethau’n unol â nodau lles a datgarboneiddio'r Cyngor a rhai cenedlaethol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**
Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

25. **DARPARU CYMORTH I GYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT YN EI RÔL O GORFF ATEBOL AR GYFER CELTIC FREEPORT (ESEMPTIAD O DAN BARAGRAFF 14)**

Ailddatganodd Nicola Pearce ei Datganiad o Fudd a gadawodd y cyfarfod.

**Penderfyniad:**

Bod Rheol 11 o Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor yn cael ei heithrio a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet perthnasol, i ymrwymo i gontract gydag *Eurus Consulting Limited*, ar y telerau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei rôl fel Corff Atebol ar gyfer y Porthladd Rhyddid Celtaidd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei roi ar waith ar ôl i'r cyfnod galw i mewn o dridiau ddod i ben.

**CHAIRPERSON**